

Beth yn y byd ddigwyddodd i bechod?

“A dyma air i’w gredu, sy’n teilyngu derbyniad llwyr: ‘Daeth Crist Iesu i’r byd i achub pechaduriaid.’” (adn. 15)

Beth am ddarlflen 1 Timotheus 1:12–20 ac yna myfyrio

Yr ydym am barhau i fyfyrio ar y ffaith fod nifer o’r ffynhonnau ysbrydol y bu i’n tadau eu cloddio bellach yn cael eu cau gan y rhai hynny o fewn yr Eglwys sy’n meddu’r hyn a alwn yn ysbryd a meddwl Philistaidd. Un o’r gwirioneddau y maent am godi amheuan ynglŷn ag ef yw gwirionedd pechod.

Yn y testun heddiw, mae Paul am ddweud ei fod am roi i ni ymadrodd y gallwn ymddiried ynddo sydd yn haeddu derbyniad llwyr, ac yn dilyn hyn, mae’n dweud fod Duw wrth y gwaith o achub pechaduriaid. *Pechaduriaid* – sylwch. Ond mae’r syniad fod gwŷr a gwragedd yn bechaduriaid yn newid mewn rhai rhannau o’r Eglwys. Fe ddefnyddir termau gwahanol, termau megis dioddefwyr, pobl sydd â meddwl isel ohonynt eu hunain, pobl sy’n ddibynnol ar eraill.

Ychydig flynyddoedd yn ôl, ysgrifennodd un seiciatrydd lyfr, a’r teitl oedd teitl y myfyrdod heddiw: *Beth yn y byd ddigwyddodd i bechod?* Yr hyn yr oedd yn ceisio ei ddangos oedd hyn: y tu ôl i gymaint o broblemau meddyliol ac emosiynol (er nad y cyfan) y gorwedd materion oedd yn arfer cael eu cydnabod fel ‘pechod’ ond bellach sy’n cael eu disgrifio mewn termau mwy niwlog. Mae ‘godineb’ yn air sy’n hyll yng ngolwg ein cymdeithas gyfoes, felly gwell gennym sôn am ‘berson yn cael perthynas hefo rhywun arall’. Mae ‘ymddygiad gwrywydiol’ yn ymadrodd arall sydd yn heriol, ac felly byddwn yn sôn am fywyd lle mae’r unigolyn ‘yn dilyn trywydd gwahanol’. Felly, gyda llawer o eiriau yr oedd ein tadau yn arfer eu defnyddio, bellach yr ydym yn edrych am eiriau sy’n gwanhau effaith ac unrhyw feirniadaeth ar bechod unigolion.

Yn anffodus, wrth i ni newid yr enwau, yr ydym hefyd yn colli golwg ar y pechodau, ac wrth gollu golwg ar bechod yr ydym yn colli golwg ar y moddion i bechod – edifeirwch, maddeuant a bywyd. Mae pobl bellach yn edrych am strategaethau seicolegol i ddelio gyda’u heuogrwydd, ond yn fynych iawn yn darganfod nad oes ganddynt unrhyw rym i wneud hynny. Ni ellir delio ag euogrwydd ond â maddeuant. Yn anffodus, mewn byd lle nad oes pechaduriaid, does fawr o angen iachawdwriaeth.

Beth am fynd ymlaen i ddarlflen:

Diar. 28:13; Esec. 8:12; Ioan 8:1–11

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut mae pobl yn delio gyda phechod?
2. Pam fod y dynion yn methu â llabyddio’r wraig?

Gweddi

O Dad, ble arall y medrwn fynd â’n pechod os na ddown atat ti? Os ydym yn rhedeg oddi wrthyt ti, yna rydym yn rhedeg o’r goleuni i dywyllwch, o ryddid i gaethiwed. Diolch am anfon dy Fab i’n hachub oddi wrth ein pechodau. Yr wyf yn gweddio yn ei enw achubol ef. Amen.